Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ATODIAD GA36d

MANYLEB ASESU LEFEL 7

Enw'r myfyriwr:		**Rhif Adnabod y myfyriwr:**	
Rhaglen:	**Tystysgrif Ôl-Raddedig mewn Polisi a Chynllunio Iaith**		
Modwl:	**Hanfodion Cynllunio Iaith**		
Cod y modwl:	**ECDA7008C**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):**	**40%**
Darlithydd:	**Elin Haf Gruffydd Jones**	**Gwiriwr Mewnol:**	**Catrin Llwyd**
Teitl yr Aseiniad:	**Cyflwyniad seminar unigol:** Cyflwynwch yn feirniadol brif nodweddion, cysyniadau a thrywyddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith. Cyfeiriwch yn benodol at waith o leiaf un o'r awduron allweddol a gyflwynwyd yn ystod y modwl.	**Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):**	**30 munud**
Dyddiad cyflwyno:	**02/12/24**	**Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:**	**24/01/25**
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) **Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):** **Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb:** Bydd gwaith a gyflwynir hyd at wythnos yn hwyr yn cael ei gapio ar 50% ar gyfer y cynnig cyntaf a dyfernir marc o 0% am waith ail-asesu. Dim ond os oes hawliad amgylchiadau esgusodol cymeradwy y gellir diddymu cosbau am gyflwyno'n hwyr. Bydd gwaith a gyflwynir fwy nag wythnos yn hwyr yn cael ei ystyried fel gwaith heb ei gyflwyno ac ni chaiff ei farcio. Gellir ystyried y gwaith fel cyflwyniad i'w ail-asesu os caiff ei gynnig gan Fwrdd Arholi neu os oes hawliad amgylchiadau esgusodol cymeradwy.		

Gonestrwydd academaidd / cyfeirnodi:	Mae gonestrwydd academaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.

Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)
Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu: • trin yn feirniadol darddiad, prif nodweddion a thrywyddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith, gan gyfeirio at awduron allweddol; • trafod yn ddadansoddol iaith fel agwedd ar ymddygiad cymdeithasol, a'r hyn a olyga hynny i unigolion ac i berthynas grwpiau iaith â'i gilydd; • cyfeirio at ymchwil a safbwyntiau arwyddocaol mewn nifer o feysydd craidd (e.e. trosglwyddo iaith, iaith a hunaniaeth, iaith a diwylliant, iaith ac economi, statws cyfreithiol) a'u gwerthuso'n feirniadol; • cyfeirio at brif ffynonellau data demograffeg iaith, gan ddethol data perthnasol i feysydd diddordeb penodol; • adnabod a thrafod datblygiadau a nodweddion polisi cyhoeddus ar gyfer ieithoedd llai a rhanbarthol, gan gyfeirio at Gymru, gwledydd yn Ewrop a Gogledd America, a chymharu datblygiadau a thueddiadau mewn gwledydd gwahanol.

DISGRIFIAD O'R DASG

Teitl: Cyflwynwch brif nodweddion, cysyniadau a thrywyddau damcaniaethol y maes cynllunio iaith, gan gyfeirio'n benodol at waith o leiaf un o'r awduron allweddol a gyflwynwyd yn ystod y modwl.

Hyd y Cyflwyniad hwn yw **30 munud**.

Mae'r aseiniad hwn yn gofyn i chi ddangos dealltwriaeth o ddatblygiad y maes polisi a chynllunio iaith yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd yn y modwl. Edrychwch yn feirniadol ar y themâu a chyfeiriwch at waith o leiaf un o'r prif awduron a gyflwynir.

Darllen Hanfodol
Mae'r aseiniad hwn yn gofyn i chi ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r deunydd hanfodol a geir ar y llyfryddiaeth.

Rhaid i chi hefyd ddefnyddio deunyddiau darllen eraill y dewch o hyd iddynt yn annibynnol sy'n dangos gallu i fynd y tu hwnt i'r cynnwys a geir yn y modwl.

Strwythur yr Aseiniad
Mae'r adran hon yn ***awgrymu*** strwythur posibl ar gyfer eich aseiniad ond sylwch mai canllaw yn unig yw hwn; felly ni ddylech adael i'r canllaw gyfyngu ar eich ysgrifennu.

Trwy gydol yr aseiniad, mae'n hanfodol eich bod yn cefnogi pob agwedd ar eich trafodaeth a'ch gwerthusiad beirniadol gan ddefnyddio darllen cefndir eang a manwl. Dylech osgoi gwneud honiadau heb eu cefnogi gan ddefnyddio ymchwil.

Cyflwyniad
Mae rhai elfennau penodol i'r adran hon. Yn gyntaf, dylech ddangos eich dealltwriaeth o'r hyn y byddwch yn ei drafod. Amlinellwch yn gryno yr hyn y byddwch yn ei archwilio yn yr

aseiniad a pham. Gwnewch yn siŵr bod y darllenydd yn deall pwrpas yr aseiniad yn llawn a pham mae'n bwysig.

Pwynt 1: Cyfle i gyfeirio'n gryno at nodweddion, cysyniadau a thrywyddau damcaniaethol y maes.

Pwynt 2: Cyfeirio at o waith leiaf un o'r prif awduron a gyfeiriwyd atynt yn y modwl.

Pwynt 3: Gan edrych ar y maes yn feirniadol, i ba raddau gallwn ddadansoddi nodweddion cymunedau ieithyddol cyfoes i weld rhai o'r nodweddion, cysyniadau a thrywyddau damcaniaethol ar waith mewn cymuned(au) ieithyddol. Yn eich barn chi o'r hyn a ddysgwyd, pa ddamcaniaethau a chysyniadau sydd fwyaf llwyddiannus, a beth yw'r prif heriau ar gyfer datblygiad y maes yn y 21ain?

Casgliad:
Yn yr adran hon, dylech grynhoi prif bwyntiau eich cyflwyniad, gan gefnogi eich dadl gyda llyfryddiaeth bwrpasol.

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt; dylech ddefnyddio adolygiadau ysgolheigaidd a ffynonellau gwreiddiol, lle bo'n briodol (er enghraifft, erthyglau ymchwil a adolygwyd a/neu ddeunyddiau gwreiddiol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth). Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad at *ystod* eang o ffynonellau, a allai fod yn academaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnil. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwch fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnodi addas yn gywir, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylech ddarllen ym maes polisi a chynllunio iaith.

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 7, dylech allu dangos dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sydd i raddau helaeth ar ben blaen eich disgyblaeth academaidd, maes astudio neu faes ymarfer proffesiynol, neu wedi'u seilio ar y pen blaen hwnnw, gyda dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n gymwys i'ch ymchwil neu'ch ysgolheictod uwch eich hun. Rhaid i'ch gwaith ddangos eich meistrolaeth gynyddol ar y cysyniadau, egwyddorion, heriau cyfredol, arloesi a mewnwelediadau hyn sy'n gysylltiedig â'r maes pwnc. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau cyfredol ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati yn ystyrlon i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd, bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych chi'n arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth; yn ddelfrydol, dylai'r ddwy fod yn gyflawn ac yn fanwl, ac wedi'u trin a'u trafod yn gynhwysfawr.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Cyflwyno'n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig.

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu: gwerthuso'n feirniadol ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth; gwerthuso methodolegau a datblygu beirniadaethau ohonynt a, lle bo'n briodol, cynnig damcaniaethau newydd; ymdrin â materion cymhleth yn systematig ac yn greadigol er mwyn llunio barn gadarn yn absenoldeb data cyflawn. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol, gwerthuso a synthesis. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech bob amser ddarparu cyfiawnhad ar gyfer eich dadleuon a'ch barn. Mae darparu tystiolaeth eich bod wedi adfyfyrio ar syniadau arbenigwyr yn y maes pwnc yn hanfodol os ydych am gyflwyno dadl resymegol a gwybodus o fewn eich gwaith. Rhaid amddiffyn eich dewis o fethodolegau ar gyfer casglu data a gwybodaeth yn drylwyr. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth o'ch gallu i ffurfio barn gadarn a dadleuon argyhoeddiadol trwy ddefnyddio data a chysyniadau. Mae casgliadau cadarn, dilys, argyhoeddiadol yn hanfodol ac mae'n rhaid iddynt ddeillio o gynnwys eich gwaith. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dadansoddi maes cysyniadol polisi a chynllunio iaith.

4. Sgiliau Ymarferol
Ar lefel 7, dylech allu dangos gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o'r modd y defnyddir technegau ymchwil ac ymholi sefydledig i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth. Mae hyn yn cynnwys gweithredu'n ymreolaethol wrth gynllunio a gweithredu tasgau ar lefel broffesiynol neu gyfatebol, gwreiddioldeb wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys, a gwneud penderfyniadau mewn cyd-destunau neu sefyllfaoedd cymhleth ac anrhagweladwy.

Dylech allu dangos meistrolaeth ar y cysyniadau a'r syniadau blaengar sy'n gysylltiedig â'r pwnc fel y maent yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destunau penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau, a/neu theorïau, yn y cyd-destunau neu'r amgylchiadau hynny, i asesu sefyllfaoedd cyfredol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu argymhellion credadwy y mae modd eu cyfiawnhau i ddatrys problemau, neu i gynnig modelau newydd, neu i greu arteffactau, a all fod yn arloesol ac yn greadigol, ac felly arddangos eich dealltwriaeth o'r modd y mae ffiniau gwybodaeth yn ehangu drwy ymchwil a/neu gymhwyso. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:
Dadansoddi cyd-destunau cyfoes ym maes polisi a chynllunio iaith.

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol
Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth i ôl-raddedigion mewn amgylchiadau sy'n gofyn am farn gadarn, cyfrifoldeb a menter personol mewn amgylcheddau proffesiynol cymhleth ac anrhagweladwy. Mae hyn yn cynnwys dangos: y gallu i ddysgu'n annibynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i wella sgiliau presennol a chaffael cymwyseddau newydd o natur broffesiynol a fydd yn eich galluogi i ymgymryd â chyfrifoldeb sylweddol o fewn sefydliadau; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau, prosiectau a gweithdrefnau, boed yn unigol a/neu'n gydweithredol, at lefel broffesiynol; eich bod yn gallu defnyddio cyfryngau priodol i gyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:
Cyflwyno o fewn yr amser a ganiatawyd ar gyfer yr aseiniad.

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	**Marciau sydd ar gael**	**Marciau a ddyfarn wyd**
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
	20	
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
	20	
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
	20	
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
	20	
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		
	20	

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	**Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)**		**%**
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 50%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

MEINI PRAWF ASESU GENERIG

Lefel 7

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 7 dylai myfyrwyr allu arddangos: dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sydd i raddau helaeth ar ben blaen eu disgyblaeth academaidd neu faes ymarfer proffesiynol, neu wedi'u seilio ar y pen blaen hwnnw; dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n gymwys i'w hymchwil neu eu hysgolheictod uwch eu hunain; gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o'r modd y defnyddir technegau ymchwil ac ymholi sefydledig i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth; dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi'r myfyriwr i werthuso'n feirniadol ymchwil cyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth er mwyn gwerthuso methodolegau a datblygu beirniadaethau ohonynt a, lle bo'n briodol, cynnig damcaniaethau newydd. Byddant yn gallu ymdrin â materion cymhleth yn systematig ac yn greadigol, llunio barn gadarn yn absenoldeb data cyflawn, a chyfleu eu casgliadau'n glir i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol. Byddant yn dangos hunan gyfeiriad a gwreiddioldeb wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys, ac yn gweithredu'n ymreolaethol wrth gynllunio a gweithredu tasgau ar lefel broffesiynol neu gyfatebol er mwyn parhau i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, a datblygu sgiliau newydd at lefel uchel. Byddant yn datblygu'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer menter a chyfrifoldeb personol; gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd/amgylcheddau proffesiynol cymhleth ac anrhagweladwy; a'r gallu i ddysgu'n annibynnol sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus.

Lefel 7	**METHU**	**METHU**	**METHU FFINIOL**	**BODDHAOL (Llwyddo)**	**DA i DDA IAWN (Teilyngdod)**	**RHAGOROL (Rhagoriaeth)**	**EITHRIADOL (Rhagoriaeth)**
Categori	**0-29%**	**30-44%**	**45-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
Ymgysylltu â llenyddiaeth (yn cynnwys ymchwil cyfredol, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig iawn o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth sydd wedi'i seilio ar ymchwil, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnodi, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir.	Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy, sydd wedi'i seilio ar yr ymchwil diweddaraf. Sgiliau cyfeirnodi ar lefel uchel, wedi'u cymhwyso'n gyson ac yn broffesiynol.

Lefel 7	METHU	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (Llwyddo)	DA i DDA IAWN (Teilyngdod)	RHAGOROL (Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-44%**	**45-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
Gwybodaeth a dealltwriaeth (Dealltwriaeth gysyniadol, systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediadau newydd, sydd i raddau helaeth ar ben blaen y ddisgyblaeth, neu wedi'u seilio ar y pen blaen hwnnw; dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau sy'n gymwys i'w hymchwil eu hunain)	Bylchau mawr yn y wybodaeth ac nid yw'r ddealltwriaeth o'r maes pwnc yn systematig. Anghywirdebau sylweddol. Dim ymwybyddiaeth o broblemau, mewnwelediad cyfredol neu'r ymchwil diweddaraf a/neu o ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth.	Bylchau yn y wybodaeth, gyda dealltwriaeth systematig arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dim ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau, mewnwelediad cyfredol neu'r ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth.	Gwybodaeth a dealltwriaeth systematig gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion yn y maes pwnc, sydd i raddau ymylol, wedi'u seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Rhywfaint o ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd, ond yn aml heb ei datblygu'n ddigonol.	Mae'r wybodaeth yn gywir ac yn gymharol fanwl. Dealltwriaeth systematig o'r maes astudio wedi'i seilio, i ryw raddau, ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd, er yn achlysurol gall hon fod heb ei datblygu'n ddigonol.	Mae'r wybodaeth â ffocws sydd wedi'i ddiffinio'n dda, ac yn gymharol helaeth, cydlynol a manwl, gydag ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd. Arddengys ddealltwriaeth dda o ehangder a manylder safbwyntiau cyfoes a sefydledig, ac mae'r gwaith, yn rhannol o leiaf, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol.	Meistrolaeth ragorol ar faes gwybodaeth cymhleth ac arbenigol. Dealltwriaeth systematig, ragorol o gysyniadau'r pwnc wedi'i seilio ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol iawn o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd. Ymwybyddiaeth feirniadol o'r modd y mae ffiniau gwybodaeth yn ehangu drwy ymchwil.	Meistrolaeth eithriadol ar faes gwybodaeth cymhleth ac arbenigol. Ymwybyddiaeth eithriadol o feirniadol o broblemau cyfredol a/neu fewnwelediad newydd. Dealltwriaeth ragorol o gysyniadau'r pwnc, wedi'i seilio'n dda ar ymchwil ac ysgolheictod cyfredol. Ymwybyddiaeth feirniadol, soffistigedig a manwl o'r modd y mae ffiniau gwybodaeth yn ehangu drwy ymchwil.
Sgiliau gwybyddol a deallusol (Gwerthuso'n feirniadol ymchwil a methodolegau cyfredol a datblygu beirniadaethau ohonynt a, lle bo'n briodol,	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso na beirniadaeth nac ymgais i ddefnyddio dull systematig. Wedi methu datblygu dadleuon, gan	Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso ymchwil a methodolegau mewn modd beirniadol. Datblygiad damcaniaethau a barn yn wan	Ymgais cyfyngedig at werthuso / beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Ymgais cyfyngedig i gynnig	Rhywfaint o werthuso / beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, er bod hyn wedi'i ddatblygu ychydig yn annigonol mewn mannau. Cynigia ddamcaniaethau	Gwerthuso / beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, cadarn. Cynigia ddamcaniaethau newydd, lle bo'n briodol. Gall ymdrin â materion cymhleth yn	Gwerthuso / beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, rhagorol. Cynigia ddamcaniaethau arloesol, lle bo'n briodol. Gall syntheseiddio materion cymhleth yn	Gwerthuso / beirniadu ymchwil a methodolegau cyfredol mewn modd beirniadol, eithriadol. Cynigia ddamcaniaethau arloesol, lle bo'n briodol. Synthesis systematig a

Lefel 7	METHU	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (Llwyddo)	DA i DDA IAWN (Teilyngdod)	RHAGOROL (Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-44%**	**45-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
cynnig damcaniaethau newydd; llunio barn gadarn yn absenoldeb data cyflawn.)	arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio tystiolaeth gredadwy.	neu'n absennol. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd.	damcaniaethau newydd. Gall ymdrin â materion cymhleth ond nid yn systematig nac yn greadigol. Peth tystiolaeth i gefnogi barn gynyddol ond gall hon fod heb ei datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli. Gall haeru'n hytrach na dadlau achos.	newydd digonol ond cyfyngedig, lle bo'n berthnasol. Gall ymdrin â materion cymhleth ond nid yn gyflawn systematig na chreadigol. Gallu i lunio barn yn seiliedig ar ddata (a allai fod yn anghyflawn) ond gyda rhywfaint o duedd i haeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth.	systematig ac â rhywfaint o greadigrwydd. Gallu i lunio barn gadarn yn seiliedig ar ddata (a allai fod yn anghyflawn)	systematig ac yn greadigol. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig.	chreadigol penigamp o faterion cymhleth. Gallu i ymchwilio i wybodaeth groes neu anghyflawn a llunio dadleuon cadarn, argyhoeddiadol a barn soffistigedig, fanwl. Potensial i gyhoeddi mewn cyfnodolyn neu wneud ymchwil doethurol.
Sgiliau ymarferol (Gwreiddioldeb / creadigrwydd wrth gymhwyso gwybodaeth, offer a thechnegau ac wrth fynd i'r afael â phroblemau a'u datrys mewn sefyllfaoedd proffesiynol cymhleth ac anrhagweladwy; defnydd ymarferol o dechnegau ymchwil ac ymholi sefydledig i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth.)	Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau.	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud	Ymwybyddiaeth a chymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau sefydledig mewn modd priodol ar y cyfan, gyda gwallau achlysurol. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n	Cymhwyso dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau safonol mewn modd priodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau	Cymhwyso ystod o ddulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	Cymhwyso gwybodaeth, dulliau, deunyddiau, offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion rhagorol. Gafael ragorol ar dechnegau sy'n gymwys i'w	Sgiliau cymhwyso eithriadol mewn cyd-destunau cymhleth, anrhagweladwy, gan dynnu'n fedrus ar yr ymchwil diweddaraf yn y ddisgyblaeth. Gall ddynodi problemau cymhleth a chynnig atebion soffistigedig, gwreiddiol. Cymhwyso rhagorol ar dechnegau sy'n

Lefel 7	METHU	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (Llwyddo)	DA i DDA IAWN (Teilyngdod)	RHAGOROL (Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-44%**	**45-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
	Sgiliau datrys problemau gwan iawn mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy.	ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol heb werthfawrogi cymhlethdod cyd-destunau anrhagweladwy' n llawn.	priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan mewn cyd-destunau cymhleth ac anrhagweladwy, gydag elfennau o wreiddioldeb.	Tystiolaeth o wreiddioldeb a chreadigrwydd.	ymchwil neu'i ysgolheictod uwch ei hun. Dengys wreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth a thechnegau, ac o'r modd y mae dulliau ymholi sefydledig yn creu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth.	gymwys i'w ymchwil neu'i ysgolheictod uwch ei hun. Dengys wreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth a thechnegau, ac o'r modd y mae dulliau ymholi sefydledig yn creu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth, gan gymathu a datblygu prosesau a thechnegau blaenllaw.
Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol (Arfer hunan gyfeiriad, ymreolaeth a chyfrifoldeb personol; cynllunio a gweithredu tasgau ar lefel broffesiynol; dysgu annibynnol; defnyddio cyfryngau priodol i gyfathrebu'n effeithiol ac yn	Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ymreolaeth (neu o gydweithio, pan	Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd digyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol.	Gall gyfathrebu mewn cyfrwng addas ond gyda lle i wella. Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlyniad mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o dîm, ond gyda chyfranogiad	Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn fformat addas, ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at	Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau	Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn fformat addas. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan reoli	Gall gyfathrebu gyda lefel eithriadol o uchel o broffesiynoldeb. Mae'r gwaith yn hynod o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n eithriadol o dda a phroffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain uwch. Arddengys sgiliau penigamp ar gyfer cyflogaeth

Lefel 7	METHU	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (Llwyddo)	DA i DDA IAWN (Teilyngdod)	RHAGOROL (Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-44%**	**45-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
broffesiynol ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd; rhuglder mynegiant; dull systematig; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn.)	fo'n berthnasol) wrth gwblhau tasgau. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion.	Menter annibynnol (neu gydweithio, os ydy'n berthnasol), wan. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion.	cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys rai ond nid yr holl sgiliau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion, gyda rhai meysydd o fân wendid.	weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid.	cynhwysfawr ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion.	gwrthdaro a chan fodloni ymrwymiadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth broffesiynol i ôl-raddedigion ac awydd cryf i ddatblygu ymhellach.	broffesiynol i ôl-raddedigion ac awydd cryf i ddatblygu ymhellach.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG